**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y cyfarfod:** 20 Tachwedd 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a'r Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Aelod Arweiniol dros Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

**Awdur yr Adroddiad:** Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

**Teitl:** Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r materion allweddol sy'n codi o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Cyngor Sir Ddinbych. Mae copi o'r llythyr adolygu llawn wedi ei amgáu fel Atodiad 1.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I sicrhau fod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r adolygiad o'r trefniadau corfforaethol yn ymwneud â diogelu gan gynnwys meysydd o gynnydd, meysydd o welliant a risg.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fe argymhellir fod Aelodau yn ystyried adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ystyried a oes angen unrhyw graffu pellach.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Roedd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn ceisio cael sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol mewn grym ar gyfer diogelu.

4.2 Fe ddaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ond fod angen gwella monitro a rhoi gwybod am berfformiad.

4.3 Mae'r ardaloedd a nodwyd fel rhai lle mae angen gwelliannau yn unol ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe fyddant yn cael eu hymgorffori yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2019 - 2020.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r archwiliad yn darparu persbectif allanol o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â diogelu corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yr ymateb i gyflawni camau gweithredu o ran gwelliannau yn cael eu hintegreiddio i mewn i Gynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2019/2020. Bydd cyflwyno'r cynlluniau hyn yn cael ei reoli gydag adnoddau ariannol presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les oherwydd nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid ar gyfer staff neu'r gymuned ehangach. Bydd Asesiad o’r Effaith ar Les yn cael ei wneud ar flaenoriaethau unigol os oes angen i brosiectau ddechrau a/neu i benderfyniadau gael eu gwneud.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae cyfarfodydd ymgysylltu a drefnwyd yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy’n helpu i lywio gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd o ran cyflawni gwelliant. Hefyd mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd her y gwasanaeth yn flynyddol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodwyd uchod mae’n bwysig fod unrhyw gostau cysylltiedig â’r camau gweithredu yn cael eu cynnal o fewn y cyllidebau arian cyfyngedig blynyddol ar gyfer y gwasanaeth a gytunir yn flynyddol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau’n gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**